monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 3 Mawrth 2021**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Manually Type Call in Date**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, P. Murphy, J.Pratt

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors D. Batrouni, J.Watkins and S. Howarth

**OFFICERS PRESENT**

Matt Phillips, Peter Davies, Paul Matthews, Will Mclean, Nicola Perry, Julie Boothroyd, Frances O'Brien, Matthew Gatehouse, Ian Saunders, Jonathan Davies, Cath Fallon and Sharon Randall-Smith

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **4** | STRATEGAETH CYFIAWNDER CYMDEITHASOL | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ddiwygiedig (Atodiad A) a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig (Atodiad B, C a D) |
| **Additional Information:** | | | | |
| **5** | ADRODDIAD I FFEDEREIDDIO CYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION CYNRADD KYMIN VIEW A LLANEUDDOGWY | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cyngor yn cytuno i ffedereiddio Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Kymin View ac Ysgol Gynradd Llandogo yn weithredol o 1 Medi 2021 ac yn unol â'r rhesymau a nodir yn yr adroddiad hwn. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **6** | STRATEGAETHAU BUDDSODDIADAU A CHRONFEYDD Y GRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG A CHRONFA'R DEGWM 2021/22 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Strategaeth Buddsoddiadau a Chronfeydd arfaethedig ar gyfer 2021/22 ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Ffermydd Sir Fynwy yn cael ei chymeradwyo.<br><br>Bod Strategaeth Buddsoddiadau a Chronfeydd 2021/22 arfaethedig Cronfa Eglwysi Cymru yn cael ei chymeradwyo.<br><br>Dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddiaeth penderfyniadau rheoli trysorlys i'r Prif Swyddog Adnoddau (swyddog A151) a fydd yn gweithredu yn unol â'r Strategaeth Buddsoddiadau a Chronfeydd (Atodiad 2).<br><br>Cymeradwyo dyraniadau grant 2021/22 i fuddiolwyr yr Awdurdod Lleol i Gronfa Deddf Eglwysi Cymru Sir Fynwy o £210,000 i'w ddosbarthu yn unol â'r data poblogaeth yn y drafft Setliad Llywodraeth Leol 2021/22. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bod Bwrdd Ymddiriedolaeth Ysgolion Ffermydd Sir Fynwy yn penderfynu ar ddyraniad grant 2021-22 yn ei gyfarfod yn Ionawr 2021 yn seiliedig ar ddychweliad buddsoddiad y blynyddoedd blaenorol hyd at ddiwedd Mawrth 2020, ac unrhyw danwario a gariwyd ymlaen o ddyraniad grant 2020-21, ac osgoi erydu'r gronfa yn gyffredinol.<br><br>Cymeradwyo Egwyddorion, Ystyriaethau Polisi a Meini Prawf Dyrannu Grantiau Cronfa Eglwysi Cymru 2021-22 (Atodiad 6) fel y'u hystyriwyd a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Eglwys Cymru ar 14 Ionawr 2021. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **7** | CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) 2021-2022 (ail ddrafft ar gyfer ymgynghori) | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Busnes EAS 2020-2021. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **8** | DATGANIAD MONITRO RHAGOLWG ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2020/21 - MIS 9 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn cydnabod bod y rhagolwg gwarged net heblaw Covid ym mis 9 o £142k yn cynrychioli gwelliant o £660k ers mis 7, yn bennaf fel canlyniad i gamau cadarnhaol a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i gwtogi gwariant heb fod yn hanfodol a thrwy ostyngiadau cost.<br><br>Bod y Cabinet yn ei gwneud ofynnol i uwch swyddogion gwtogi costau ar gyfer gweddill y flwyddyn a lle bynnag sydd modd geisio cymryd mantais o arian grant sy'n dod i'r amlwg yn hwyr yn y flwyddyn i godi'r gwarged diwedd blwyddyn ymhellach a thrwy wneud hynny roi gofod i'r Cabinet ar gyfer dewis polisi ac mae hynny'n cynnwys balansau cronfeydd wrth gefn a derbyniadau cyfalaf cyfyngedig y Gall y cyngor eu defnyddio i ateb heriau ariannol y dyfodol.<br><br>Gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Cabinet yn seiliedig ar ddialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru a chyllid a dderbyniwyd hyd yma y caiff yr holl incwm, colledion a phwysau cost cysylltiedig a chymwys eu hariannu gan nodi:<br><br>a) Rhagolwg cyfanswm diffyg refeniw net ym mis 9 o £5.15m, gwelliant o £1.28m o fis 7 ac sy'n cynnwys rhagolwg diffyg o £5.28m sydd yn uniongyrchol gysylltiedig gyda'r pwysau ariannol arbennig oherwydd COVID-19;<br><br>b) Ers paratoi'r rhagolygon cyllideb ar gyfer mis 9 bod Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Awdurdod y bydd swm pellach o £2.02m ar gael i'r Awdurdod yng nghyswllt hawliadau a wnaed i'r gronfa Caledi ar gyfer gwariant ychwanegol a gafwyd ym mis Rhagfyr 2020 a cholledion incwm a gafwyd yn ystod chwarter 3 y flwyddyn ariannol, ac y bydd hynny yn ei dro yn gostwng y rhagolwg diffyg cysylltiedig o £5.26m yn ymwneud â COVID-19 i £3.26m. Disgwylir hefyd y derbynnir £1.53m pellach ar gyfer eitemau a hawliwyd ond os nas cymeradwywyd hyd yma yn disgwyl eglurhad pellach i Lywodraeth Cymru.<br><br>Wrth ddilyn y dull gweithredu a nodir uchod, mae'r Cabinet yn cydnabod natur eithriadol y flwyddyn bresennol ac yn derbyn y cafodd pwysau cylchol sylweddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ar wasanaethau eu hymgorffori yn y broses gosod cyllideb barhaus ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 os na chânt eu lliniaru fel arall.<br><br>Mae'r Cabinet yn nodi maint y symudiadau a ragwelir yn nefnydd cronfeydd wrth gefn Ysgolion a roddir yn atodiad 1.<br><br>Mae'r Cabinet yn ystyried yr rhagolwg gwariant alldro cyfalaf o £22.38m wrth ochr llithriad sylweddol o £40.45m a'r tybiaethau a wnaed o amgylch y canlyniadau cyllido, fel yr amlinellir yn atodiad 1. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **9** | CYNIGION TERFYNOL Y GYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn argymell i'r Cyngor:<br><br>a) Cyllideb refeniw 2021/22 fel y'i hatodir yn Atodiad I1.<br><br>b) Rhaglen cyfalaf 2021/22 i 2024/25 fel y'i hatodir yn Atodiad J1.<br><br>Bod y Cabinet yn cydnabod bod y cynigion cyllideb terfynol a gynigiwyd yn mynd ati i gefnogi blaenoriaethau'r cyngor ac yn benodol yn anelu i gydnabod:<br><br>a) Yn llawn, yr holl bwysau cysylltiedig â chyflogau a phensiwn yn ein system ysgolion;<br><br>b) Y galw cynyddol a roddwyd ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant, gofal cymdeithasol oedolion a'n plant gyda chyllidebau anghenion dysgu ychwanegol;<br><br>c) Pwysau cost sylweddol o fewn yr uned cludiant teithwyr ac o fewn ailgylchu a gwastraff sy'n anelu i sicrhau fod y Cyngor yn cefnogi ac yn cynnal darpariaeth gwasanaethau allweddol;<br><br>d) Buddsoddiad sy'n sicrhau y caiff pobl ddigartref gymorth, cyngor a llety digonol ar eu hadeg o angen;<br><br>e) Ymrwymiad parhaus i gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniad y gweithlu a sicrhau na chaiff staff llywodraeth leol dâl nad yw'n ddim llai na'r cyflog a osodwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ac fel canlyniad bod benderfyniad y Cabinet ym mis Ionawr hefyd yn cel ei ymestyn i rolau prentisiaeth.<br><br>Y caiff cynnydd o 3.89% cyfwerth â Band "D" Treth Gyngor ei ddefnyddio fel y dybiaeth cynllunio yn y model cyllideb ac i'w weithredu ar gyfer dibenion y Sir yn 2021/22, wedi'i ostwng o'r cynnydd blaenorol a gynigiwyd o 4.95% ac fel canlyniad i ymgynghori â'r cyhoedd.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion diwygiedig ar arbedion a phwysau, a ddiweddarwyd yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd, craffu a bod gwybodaeth fwy cyfredol ar gael ers cyhoeddi'r drafft gynigion ar ymgynghoriad ar 20 Ionawr 2021.<br><br>Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau a buddsoddiad ychwanegol yn yng nghynigion drafft y gyllideb gyfalaf a rhaglen ar gyfer 2021/22 a chyllidebau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfalaf dangosol o 2022/23 i 2024/25.<br><br>Bod y Cabinet yn argymell bod y Cyngor yn gwaredu ag asedau a ddynodwyd yn y papur cefndir eithriedig ar werth gorau.<br><br>Bod y Cabinet yn ystyried adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gadernid y broses cyllideb ac ar ddigonolrwydd cronfeydd wrth gefn a gyhoeddwyd dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, ynghyd ag asesiad o'r risgiau ariannol cyfredol a dyfodol sy'n wynebu'r Cyngor.<br><br>Bod y Cyngor yn mabwysiadu adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar ddangosyddion darbodus.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo:<br><br>a) Cynnal gwaith pellach i ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canol cytbwys.<br><br>b) Cynnal adolygiad rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canol i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol a bod hynny'n cynnwys asesiadau o bwysau a risgiau seiliedig ar dystiolaeth, tybiaethau modelu sylfaenol a goblygiadau fforddiadwyedd parhaus y Cynllun Corfforaethol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |